

17. **RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU A RHEOLAU CAFFAEL**

17.1 **CYFLWYNIAD**

- 17.1.1 Caffael yw'r broses sy'n galluogi'r Cyngor i reoli cael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Mae'n cynnwys adnabod angen, ystyried dewisiadau, y broses gaffael ei hun a rheoli ac adolygu'r contractau wedi hynny.
- 17.1.2 Y Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael yw'r fframwaith corfforaethol ar gyfer caffael yr holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith ar gyfer y Cyngor. Bwriad y Rheolau yw sicrhau fod y Cyngor yn cael gwerth am arian a'r lefel angenrheidiol o ansawdd a pherfformiad yn yr holl gontractau sy'n cael eu gosod a bod yr holl weithgaredd caffael yn cael ei gynnal yn agored, yn gywir ac yn atebol.
- 17.1.3 Yn ei holl gaffaeliadau, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r egwyddorion sydd yng Nghytundeb yr UE, sef gwrth-wahaniaethu, triniaeth gyfartal, cyd-gydnabod a chymesuredd, a chynlluniwyd y rheolau hyn i sicrhau cydymffurfio â hwy.

17.2 **DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU**

- 17.2.1 Yn y Rheolau hyn, bydd y diffiniadau a ganlyn yn gymwys :-
- Golyga **Swyddog Awdurdodedig** y sawl sydd ar y pryd yn dal unrhyw swydd a enwir yn y Cynllun Dirprwyo fel un yn meddu ar bwerau a dyletswyddau dirprwyedig parthed y caffael dan sylw.
  - Golyga **Prif Swyddog** unrhyw swyddog yn y categorïau canlynol o swyddog: Prif Weithredwr; Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Adran.
  - Golyga **Contract** unrhyw ffurf ar gytundeb (gan gynnwys, heb gyfyngiad, archebion pwrcasu swyddogol) ar gyfer cyflenwi nwyddau, darparu gwasanaethau neu wneud gwaith.
  - Golyga **Contractwr** unrhyw gontractwr, darparwr neu gyflenwr y daw'r Cyngor i gontract ag ef/hi ar gyfer gwneud Gwaith, darparu Gwasanaethau new gyflenwir Nwyddau.
  - Golyga **Cytundeb Fframwaith** gytundeb gydag un neu fwy o Gontractwyr, gyda'r diben o sefydlu'r telerau (yn enwedig parthed pris a swm) sy'n llywodraethu contract neu gontractau i'w dyfarnu yn ystod y cyfnod y bydd y cytundeb fframwaith yn gymwys.
  - Mae **Nwyddau** yn ymdrin â'r holl nwyddau, cyflenwadau, sylweddau a deunyddiau y mae'r Cyngor yn eu prynu, llogi neu fel arall yn eu cael.

- **Grant a Grantiau** – swm o arian a delir neu y dylid ei dalu gan y Cyngor i drydydd parti, a lle nad yw'r Cyngor yn mynnu bod y sawl sy'n derbyn y grant yn rhoi i'r Cyngor unrhyw wasanaethau neu nwyddau neu wneud unrhyw Waith er budd uniongyrchol i'r Cyngor. Gall y Grant for yn amodol (h.y. oblygiadau i wario'r Grant mewn dull arbennig, i gyfrif am y gwariant hwnnw ac ad-dalu'r Grant os torrir amodau'r Grant).
- Golyga **GID** wahoddiad i gyflwyno Tendr.
- Golyga **Caffael** y broses sy'n galluogi'r Cyngor i reoli cael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Mae'n cynnwys adnabod angen, ystyried dewisiadau, y broses gaffael ei hun a rheoli ac adolygu'r contractau wedi hynny.
- Golyga **Rheolwr Caffael** Reolwr Caffael y Cyngor neu unrhyw swyddogion dan ei g/oruchwyliaeth neu reolaeth sy'n cael pŵer dirprwyedig gan y Cyngor i weithredu unrhyw oblygiadau, dyletswyddau neu weithgareddau y mae gofyn eu gwneud ganddi/o dan y Rheolau neu i weithredu yn ei h/absenoldeb.
- **Proses Gaffael.** Mae'r broses gaffael yn ymestyn dros yr holl gylch, o adnabod anghenion, mantoli'r dewisiadau, dethol cyflenwyr, dyfarnu a rheoli'r contract trwodd at ddiwedd y contract neu ddiwedd einioes yr ased, neu waredu'r ased.
- Golyga **Rheolau** y Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffel hyn.
- Mae **Gwasanaethau** yn cynnwys yr holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu neu fel arall yn eu cael gan gynnwys cyngor, gwaith ymgynghorol arbenigol, staff asiantaeth, a.y.b.
- **Gweithdrefn a Drafodir** yw lle mae'r Cyngor wedi trafod telerau'r Contract gydag un neu fwy o'r darparwyr, contractwyr neu gyflenwyr a ddewiswyd ganddynt.
- Golyga **Rheoliadau** Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 ac unrhyw newidiadau neu ail-ddeddfu iddynt.
- **Tendrwr/Tendrwr.** Unigolyn, unigolion, partneriaethau, cwmnïau neu gyrff eraill a wahoddir i gyflwyno dyfynbrisiau/tendrau/prisiau ar gyfer darparu gwasanaethau, cyflenwi nwyddau neu wneud gwaith i'r Cyngor.
- Golyga **Egwyddorion y Cytundeb** yr egwyddorion y cyfeirir atynt ym mharagraff 17.1.3 uchod.
- Golyga **Bid Amrywiad** gynnig/bid sydd yn cynnwys amrywiadau ar y gofynion a bennir gan y Cyngor yn eu dogfennau caffael.

- Golyga **Amrywiad** ac **Amrywiadau** unrhyw newid i Gontract, gan gynnwys ychwanegiadau, gadael allan, gosod yn lle, neu newidiadau o unrhyw natur arall.
- Mae **Gwaith** yn cynnwys pob gwaith adeiladu a thrwsio newydd parthed asedau ffisegol (adeiladau, ffyrdd, a.y.b.) gan gynnwys yr holl weithgareddau sy'n Waith at ddibenion y Rheoliadau.
- Golyga **Ysgrifenedig** mewn ysgrifen neu yn "ysgrifenedig" ar fformat electroneg.

17.2.2 Mae'r holl werthodd y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn heb gynnwys T.A.W.

17.2.3 Dylai unrhyw anghydfod parthed dehongli'r Rheolai hyn fynd at y Swyddog Monitro.

17.2.4 Dylid darllen y Rheolau hyn ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd ac yn enwedig Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, mae'n rhaid cydymffurfio â hwy.

17.2.5 Bydd y Rheolwr Caffael yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Rheolau hyn o leiaf bob dwy flynedd.

### **17.3 CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU HYN**

17.3.1 Rhaid dilyn y Rheolau hyn wrth ymdrin ag unrhyw Gaffael yn y Cyngor ac eithrio am y Caffaeliadau hyn ac unrhyw faterion eraill y cyfeirir atynt yn Rheol 17.4.

17.3.2 Rhaid i bob Caffael a wneir gan y Cyngor neu unrhyw barti arall ar ei ran gydymffurfio â'r canlynol:

- (a) yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;
- (b) holl gyfarwydddebau caffael cymwys yr Undeb Ewropeaidd a'r Rheoliadau;
- (c) mae Egwyddorion y Cytundeb yn gymwys i holl gaffaeliadau'r Cyngor (hyd yn oed pan nad yw'r caffael yn destun cyfarwydddebau caffael yr Undeb Ewropeaidd a'r Rheoliadau sydd yn eu gweithredu yn y D.U.);
- (ch) Cyfansoddiad y Cyngor,
- (d) amcanion strategol a pholisïau'r Cyngor gan gynnwys y Strategaeth gaffael Gorfforaethol.
- (dd) Polisi Caffael Cynaliadwy y Cyngor, a
- (e) arweiniaid yn y Llawlyfr Caffael.

- 17.3.3 Gall y Rheolwr Caffael o bryd i'w gilydd gyhoeddi canllawiau caffael. Rhaid i Brif Swyddogion ofalu fod eu gweithwyr yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a dylent annog cydymffurfio.
- 17.3.4 Gall unrhyw fethiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw rai o ddarpariaethau'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu.

#### **17.4 EITHRIADAU I'R RHEOLAU**

- 17.4.1 Nid yw'r Rheolau hyn yn gymwys i'r canlynol:
- (a) cael neu waredu tir;
  - (b) contractau cyflogaeth sy'n gwneud unigolyn yn weithiwr uniongyrchol i'r Cyngor;
  - (c) defnyddio gwasanaethau mewnol y Cyngor;
  - (ch) dyfarnu Grantiau. (Nid yw grantiau yn dod dan gyfraith caffael gyhoeddus gan nad contractau cyhoeddus mohonynt. Fodd bynnag, maent yn cael eu rheoleiddio gan y rheolau ar gymorth y wladwriaeth a thrwy gyfyngiadau'r gyfraith gyhoeddus gyffredinol sydd yn ymwneud â dyletswydd ymddiriedol a gwario arian cyhoeddus yn iawn, yn ogystal ag amodau penodol a all gynnwys gofynion caffael);
  - (d) archebion unigol a osodir gan contractau sydd yn darparu ar gyfer gosod archebion yn erbyn rhestr gytunedig o gyfraddau, neu dan contract tymor mesuredig neu dan Gytundeb Fframwaith, ar yr amod bod y cyfryw contractau neu Gytundeb Fframwaith wedi eu gosod gan y Cyngor yn unol â'r Rheolau hyn;
  - (dd) archebion unigol a osodir gan Gytundebau Fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth a/neu Gwerth Cymru neu Gytundebau Fframwaith eraill y sector cyhoeddus lle caniateir i'r Cyngor osod archebion dan gytundebau o'r fath;
  - (e) contractau am wasanaethau yr eir iddynt yn ôl pwerau dan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 a Deddf Plant 1989 er lles unigolyn;
  - (f) cyfarwyddiadau a roddir gan neu ar ran y Swyddog Monitro i Gwnsler. Bydd y Swyddog Monitro yn trefnu y cedwir cofnod o'r holl gyfryw gyfarwyddiadau ynghyd â chofnod o ffi'r Cwnsler;
  - (ff) Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith a gaffaelir gan gorff cyhoeddus arall ar ran neu er budd y Cyngor a phartion eraill ar y cyd (h.y. trefniant caffael cydweithredol megis y contractau a ddyfernir trwy'r Consortiwm Pwrcasu Cymreig, a.y.b.), ac ar yr amod, dan yr amgylchiadau hyn, y cydymffurfiwyd â holl reolau caffael/contract y corff cyhoeddus arall, holl ofynion cyfraith caffael yr UE a'r DU, ac egwyddorion sylfaenol Cytundeb y GE. Rhaid ceisio cyngor y Rheolwr Caffael cyn dibynnu ar unrhyw drefniant o'r fath. Wrth

ddibynnu ar yr eithriadau uchod, dylai'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth gorau posibl am arian.

- (g) Contract "De-minimus" unigol yng nghyllideb cefnogi cludiant cyhoeddus y Cyngor hyd at uchafswm cronnus of 40% o'r gyllideb honno.

## **17.5 TREFNIADAU FFRAMWAITH AR DRAWS Y CYNGOR**

- 17.5.1 Lle bo'r rhain ar gael, dylid gwneud defnydd o gytundebau pwrcasu corfforaeth a Chytundebau Fframwaith presennol y Cyngor a osodwyd yn unol â'r Rheolau hyn, oni chytunodd y Rheolwr Caffael i'r gwrthwyneb dan amgylchiadau eithriadol. Mae'r Uned Gaffael Gorfforaethol yn cadw cofrestr o gytundebau fel hyn a gall roi cyngor ynglŷn â'u defnyddio.

## **17.6 AMCANGYFRIF GWERTH Y CONTRACT**

- 17.6.1 Ni ellir gwneud rhaniad artiffisial mewn unrhyw waith na gofynion am nwyddau neu wasanaethau er mwyn osgoi cydymffurfio â chyfraith gaffael yr UE neu'r Rheolau
- 17.6.2 Amcangyfrif gwerth Contract/ymarferiad caffael fydd gwerth yr holl ystyriaeth, net o dreth ar werth, y mae'r Cyngor yn disgwyl fydd yn daladwy dan y Contract.
- 17.6.3 Wrth bennu gwerth yr holl ystyriaeth, y disgwylia'r Cyngor ei dalu, bydd y Cyngor, lle bo hynny'n berthnasol, yn ystyried y canlynol :-
- (a) unrhyw ffurf ar ddewis
  - (b) tymor/cyfnod y Contract arfaethedig
  - (c) unrhyw hawliau i adnewyddu'r Contract/ymestyn cyfnod y Contract
  - (ch) unrhyw wobr, tâl, premiwm, ffioedd, comisiwn, llog neu unrhyw ffurf arall ar daliad taladwy dan y Contract arfaethedig neu yng nghyswllt y caffael arfaethedig.
- 17.6.4 Wrth bennu gwerth unrhyw Gontract am logi Nwyddau, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr adeg dod i mewn i'r Contract, yna cymerir y gwerth fel yr hyn sy'n cyfateb i werth yr ystyriaeth fisol wedi ei luosi a 48.
- 17.6.5 Wrth bennu gwerth unrhyw gontract am ddarparu gwasanaethau neu wneud gwaith, os yw tymor y contract yn amhenodol neu'n ansicr adeg dod i mewn i'r contract, yna cymerir y gwerth fel yr hyn sy'n cyfateb i werth ystyriaeth fisol wedi ei luosi ag 48.
- 17.6.6 Lle bo gan y Cyngor ofynion dros gyfnod o amser am nwyddau a gwasanaethau lle bo gan y contractau nodweddion tebyg a bod y nwyddau a'r gwasanaethau o'r un fath, ac y bydd yn mynd i gyfres o gontractau neu gontract adnewyddadwy, yna caiff amcangyfrif y gwerth ei weithio allan yn ôl cyfanswm y gwariant ar y cyfryw bethau dros y 12 mis diwethaf neu'r amcangyfrif o gyfanswm y gwariant am y 12 mis

nesaf, pa un bynnag sydd fwyaf. Wrth amcangyfrif y gwerth hwn, rhaid ceisio cyngor y Rheolwr Caffael a chadw mewn cof ddarpariaethau Rheoliad 8 o'r Rheoliadau.

17.6.7 Ar gyfer Cytundeb Fframwaith, neu rai tebyg, gyda gwariant blynyddol hysbys ond sy'n para mwy na blwyddyn, caiff nifer blynyddoedd y pery eu lluosu â'r gwariant blynyddol tebygol a rhaid ei bennu trwy ymgynghori â'r Rheolwr Caffael. Y cyfnod hwyaf a ganiateir yn awr dan Reolau Caffael yr UE ar gyfer Cytundebau Fframwaith yw 4 blynedd.

## **17.7 CONTRACTAU DAN £50,000 (DYFYNBRISIAU)**

17.7.1 Lle bo modd, rhaid cael Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith trwy Drefniadau Fframwaith, Rhestrau Sefydlog neu drefniadau consortia corfforaethol sy'n bodoli eisoes.

17.7.2 Lle nad oes trefniadau cydnabyddedig yn bodoli, rhaid ceisio'r nifer isod o ddyfynbrisiau a dangos tystiolaeth am hyn yn unol â rheolau 17.7.3 neu 17.7.4

(a) Hyd at £5,000 un dyfynbris yn unig

(b) Rhwng £5,000 a £50,000 mae angen tri dyfynbris.

17.7.3 Ar gyfer Caffaeliadau hyd at £5,000 rhaid i'r dyfynbris fod yn ysgrifenedig er mwyn dangos gwerth gorau ac uniondeb y broses. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon.

17.7.4 Ar gyfer Caffaeliadau o £5,000 i £50,000 cedwir cofnodion yn rhoi manylion o'r Contractwyr a ddewiswyd i roi dyfynbris, i bwy y rhoddwyd y Contract a'r rhesymau dros wneud hynny (y pris isaf neu'r cynnig sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r Cyngor a pham), fel bod modd dangos gwerth gorau ac uniondeb y broses. Cedwir y dyfynbrisiau yn gyfrinachol hyd nes y dyfernir y Contract. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig sylweddoli bod yn rhaid hysbysu Contractwyr o sut y caiff eu dyfynbrisiau eu gwerthuso, a dylid anfon y wybodaeth hon allan adeg gofyn i'r Contractwyr roi dyfynbrisiau.

17.7.5 Lle bo galw rheolaidd am yr un math o nwyddau, gwasanaethau neu waith, ac nad oes trefniadau fel a ddisgrifir yn Rheol 17.5 ar gael, rhaid ystyried dyfarnu cytundeb fframwaith a rhaid cael cyngor y Rheolwr Caffael.

17.7.6 Lle be nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu caffael yn rheolaidd gan un cyflenwr penodol dan y Rheol hon, a bod gwerth cronus y contractau hynny yn fwy na £50,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid i'r Pennaeth Adran roi adroddiad i'r Rheolwr Caffael a fydd yn adolygu'r trefniadau parthed sicrhau cydymffurfio â'r Rheolau hyn a Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor.

## **17.8 CONTRACTAU GWERTH DROS £50,000 (TENDRAU)**

- 17.8.1 Ar gyfer caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000, rhaid gwahodd o leiaf dri tender ysgrifenedig.
- 17.8.2 Am y rheolau am: Cyd-gymhwyso, Gwahoddiad i Dendro, Derbyn Tendrau, Cadw ac Agor Tendrau, Gwerthuso Tendrau, Trafod Wedi'r Tindr, Tîm Gwerthuso, Risg a Dyfarnu Contractau, gweler rheolau 17.12 i 17.25.
- 17.8.3 Bydd yr Uned Gaffael Gorfforaethol yn cadw Cofrestr Contractau Corfforaethol a fydd yn cofnodi i bwy y dyfernir contractau a'r llwybr caffael a ddilynwyd ym mhob achos. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig roi'r holl wybodaeth a fynnir i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol er mwyn hwyluso hyn.
- 17.8.4 Bydd raid i dendrau dderbyn cyfeirnod gan yr Uned Gaffael Gorfforaethol.

## **17.9 CONTRACTAU A DDAW DAN GYFARWYDDEBAU CAFFAEL**

### **YR UNDEB EWROPEAIDD**

- 17.9.1 Yn achos caffaeliadau sy'n dod dan gyfarwyddebau caffael yr Undeb Ewropeaidd a'r Rheoliadau
- (a) gwahoddir tendrau yn unol â gofynion y cyfryw gyfarwyddebau a'r Rheoliadau sydd mewn grym ar y pryd; a
  - (b) bydd y cyfryw gyfarwyddebau a Rheoliadau â blaenoriaeth dros y Rheolau hyn
  - (c) mae'r cyfryw gyfarwyddebau a Rheoliadau yn cynnwys gofynion sydd uwchlaw a thros y gofynion sydd yn y Rheolau hyn.
- 17.9.2 Medrwyd gael cyngor a chanllawiau ynglŷn ag a yw caffael penodol yn dod dan gyfarwyddebau caffael yr UE gan y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Monitro.
- 17.9.3 Dyma'r lefelau trothwy presennol ar y 1, Ionawr, 2014
- Gwasanaethau £172,514
- Cyflenwadau £172,514
- Gwaith £4,332,012
- Mae'r trothwyon yn newid bob dwy flynedd a byddent yn newid eto ar y 1, Ionawr, 2016
- 17.9.4 Mae'r Uned Gaffael Gorfforaethol yn gyfrifol am gasglu ynghyd a chyflwyno cofnodion ystadegol yn unol â Rheoliad 40 y Rheoliadau a bydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i gasglu gwybodaeth yn flynyddol. Dylai Penaethiaid Gwasanaeth gydymffurfio â'r trefniadau hyn.

## **17.10 YMGYNGHORWYR**

17.10.1 Dylai unrhyw ymgynghorwr a ddefnyddir gan y Cyngor gael eu penodi yn unol â'r Rheolau hyn. Lle bo'r Cyngor yn defnyddio Ymgynghorwyr i weithredu ar eu rhan mewn perthynas ag unrhyw gaffael, yna dylai'r Pennaeth Gwasanaeth ofalu bod yr ymgynghorwyr yn gwneud unrhyw gaffael yn unol â'r rheolau sefydlog hyn am gontractau. Ni ddylai unrhyw ymgynghorydd wneud penderfyniad ar ddyfarnu contract neu beidio nac i bwy y dylid dyfarnu contract. Dylai'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd yn cael ei fonitro.

## **17.11 IS-GONTRACTWYR A ENWEBIR AC A ENWIR**

17.11.1 Os yw is-gontractwr, cyflenwr neu is-ymgyngorydd i'w enwebu neu ei enwi i brif gontractwr, rhaid gwahodd dyfynbrisiau neu dendrau yn unol â'r Rheolau Sefydlog hyn a dylai telerau'r gwahoddiad fod yn gydnaws â'r prif gontract.

## **17.12 CYN-GYMHWYSO (Yn gymwys i bawb)**

17.12.1 Bydd y Cyngor yn Contractio gyda Chontractwr yn unig os yw'n fodlon am fedr y Contractwr. Gall y meini prawf ar gyfer dethol Tendrwy'r gynnwys yr isod, ond nid y rhain yn unig :-

- (a) Medr a phrofiad technegol neu broffesiynol gan gynnwys cymwysterau;
- (b) Iechyd a Diogelwch;
- (c) Ansawdd gan gynnwys ardystiad gan sefydliadau neu gyrff rheoli ansawdd cydnabyddedig a/neu ardystiad am gydymffurfio â safonau sicrhau ansawdd a/neu fesurau neu gyrff neu safonau sy'n cyfateb;
- (ch) Sefyllfa ariannol ac economaidd gan gynnwys darpariaethau yswiriant priodol;
- (d) Cynladwyedd, gan gynnwys mesurau rheoli amgylcheddol, a
- (dd) Tystiolaeth ynglŷn ag anaddasrwydd, e.e. methdaliad, euogfarnau troseddol neu fethu talu trethi.

17.12.2 Dylai unrhyw gaffaeliadau sy'n destun y rheoliadau gydymffurfio â'r Rheoliadau priodol.

17.12.3 Dylai pob proses Cyn-gymhwysio gydymffurfio ag egwyddorion cytundeb yr UE y cyfeiriwyd atynt yn 17.1.3 uchod a rhaid llunio unrhyw ofynion ynghylch Cyn-Gymhwysio er mwyn osgoi torri ar yr egwyddorion hynny.

17.12.4 Bydd pob terfyn amser ar gyfer prosesau Cyn-Gymhwysio yn rhesymol gan gadw mewn cof destun y contract, gwerth y contract ac Egwyddorion



y Cytundeb.

**17.13 Y GWAHODDIAD I DENDRO**

- 17.13.1 Mae'r gofynion hyn yn gymwys i bob Gwahoddiad i Dendro waeth beth fo'u gwerth.
- 17.13.2 Rhaid i'r gwahoddiad i dendro gynnwys manylion o ofynion y Cyngor ar gyfer y contract arbennig, gan gynnwys:
- (a) manyleb o'r gwasanaethau, nwyddau neu waith a gaffaelir a chyfarwyddiadau ynglŷn ag a chaniateir unrhyw amrywiadau;
  - (b) yr amserlen gaffael gan gynnwys dyddiad ac amser dychwelyd y tendr, a ddylai ganiatáu amser rhesymol i'r ymgeiswyr baratoi eu tendrau;
  - (c) telerau ac amodau contract y Cyngor;
  - (ch) y meini prawf gwerthuso gan gynnwys pwysladau;
  - (d) Ffurf y Tendr;
  - (dd) mecanwaith prisio a chyfarwyddiadau cwblhau;
  - (e) a yw'r Cyngor o'r farn y bydd TUPE yn gymwys;
  - (f) ffurf a chynnwys y datganiadau dull a ddarperir;
  - (ff) rheolau cyflwyno tendrau;
  - (g) cyfeirnod tendr
  - (ng) unrhyw wybodaeth bellach fydd yn gymorth i Dendrwyr wrth baratoi tendrau.
- 17.13.3 Bydd gofyn i bob Tendrwr sy'n cyflwyno tendr lofnodi datganiad i'r perwyl:
- (a) nad ydynt ac na fyddent yn hysbysu unrhyw un arall am swm eu tendr;
  - (b) nad ydynt wedi gosod swm unrhyw dendr yn unol â threfniant gosod prisiau;
  - (c) eu bod yn derbyn fod gan y Cyngor yr hawl i ganslo'r contract ac adennill ganddynt swm unrhyw golled sy'n deillio o'r cyfryw ganslo os darganfyddir y bu unrhyw weithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg gweithredu ganddynt a gymhellodd y Cyngor mewn unrhyw ffordd i ddod i'r contract;
  - (ch) cydnabod nad oes rheidwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf neu unrhyw dendr a gyflwynir, y gall yr ymarferiad tendro gael ei ddileu ar unrhyw gyfnod ar unrhyw adeg yn ystod y broses a'u

bod yn tendro ar eu traul eu hunain.

- 17.13.4 Bydd pob terfyn amser ar gyfer Prosesau Tendro fod yn rhesymol o gadw mewn cof destun y contract, gwerth y contract ac Egwyddorion y Cytundeb.

#### **17.14 GWEITHDREFN TENDRO (GWEITHDREFN AGORED)**

- 17.14.1 Yn achos caffaeliadau nas llywodraethir gan y Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad ar wefan y Cyngor, a Gwerthwch i Gymru a ble'n briodol, gan ddal sylw at ofynion y Rheoliadau yma, y wasg leol, ac unrhyw gyfnodolion cenedlaethol a/neu gyfnodolion masnach briodol er mwyn targedu'r farchnad briodol ar gyfer y contract priodol. Bydd maint a natur y cyhoeddiad yn gymesur i werth a thestun y Caffael a dylid cadw mewn cof Egwyddorion y Cytundeb.
- 17.14.2 Dylai'r hysbyseb gynnwys manylion y contract arfaethedig a nodi terfyn amser i'r partïon sydd â diddordeb fynegi diddordeb mewn tendro am y contract. Ar ôl dyddiad y terfyn amser ar gyfer mynegi diddordeb, bydd y Cyngor yn anfon at unrhyw rai sy'n mynegi diddordeb mewn GID. Bydd y GID yn nodi dyddiad dychwelyd y tendrau.
- 17.14.3 Gwahoddir yr holl Dendrwyr sy'n mynegi diddordeb i dendro. Yn achos caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000 lle bo llai na thri o Dendrwyr wedi mynegi diddordeb, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, trwy ymgynghori â'r Rheolwr Caffael, bennu a oes digon o ddiddordeb i ddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r Caffael.

#### **17.15 GWEITHDREFN TENDRO (GWEITHDREFN GYFYNGEDIG)**

- 17.15.1 Yn achos Caffaeliadau nas llywodraethir gan y Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad yn unol â Rheol 17.14.1 uchod ac eithrio y dylai'r hysbysiad ddatgan y defnyddir Gweithdrefn Gyfyngedig.
- 17.15.2 Dim ond y Tendrwyr hynny a ddetholir gan y Cyngor a wahoddir i dendro. Detholir Tendrwyr yn unig ar sail y meini prawf Cyn-Gymhwyso cyhoeddedig sy'n cydymffurfio â Rheol 17.12.
- 17.15.3 Rhaid dethol o leiaf 3 Tendrwr. Yn achos caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000 lle bo llai na thri o Dendrwyr wedi mynegi diddordeb, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, trwy ymgynghori â'r Rheolwr Caffael, bennu a oes digon o ddiddordeb i ddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r Caffael.

#### **17.16 GWEITHDREFN TENDRO (GWEITHDREFN A DRAFODIR)**

- 17.16.1 Yn achos Caffaeliadau nas llywodraethir gan y Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad yn unol â Rheol 17.14.1 uchod ac eithrio y dylai'r hysbysiad ddatgan y defnyddir Gweithdrefn a Drafodir.
- 17.16.2 Dim ond y Tendrwyr hynny a ddetholir gan y Cyngor a wahoddir i dendro. Detholir Tendrwyr yn unig ar sail y meini prawf Cyn-Gymhwyso

cyhoeddedig sy'n cydymffurfio â pharagraff 17.12 y Rheolau hyn.

- 17.16.3 Rhaid gwahodd 3 Tendrwr o leiaf i Dendro. Yn achos caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000 lle bo llai na thri o Dendrwyr wedi mynegi diddordeb neu sy'n abl i gael eu gwahodd i Dendro, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, trwy ymgynghori â'r Rheolwr Caffael, bennu a oes digon o ddiddordeb i ddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r Caffael.
- 17.16.4 Yn achos caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000 neu fwy, rhaid i ddau swyddog, gydag un ohonynt o leiaf yn Bennaeth Gwasanaeth neu'n uwch Reolwr, fod yn bresennol trwy'r amser yn ystod y trafodaethau.
- 17.16.5 Dylai'r Cyngor gadw cofnodion cywir o'r holl drafodaethau a dylai'r rhain gael eu llofnodi felly gan bawb sy'n cymryd rhan.
- 17.16.6 Ar bob amser yn ystod y trafodaethau, dylai'r Cyngor gymhwyso Egwyddorion y Cytundeb.
- 17.16.7 Defnyddir y Weithdrefn a Drafodir, yn unig dan yr amgylchiadau a ganlyn:
- (a) os rhoddwyd y gorau i'r weithdrefn sy'n arwain at ddyfarnu contract gan y Cyngor trwy ddefnyddio'r Weithdrefn Agored, y Weithdrefn Gyfyngedig neu'r Weithdrefn Deialog Gystadleuol oherwydd tendrau afreolaidd; neu dendrau annerbyniol ond dim ond os na wnaethpwyd newidiadau sylweddol i'r telerau gwreiddiol yn y contract arfaethedig yn y weithdrefn y rhoddwyd y gorau iddi yn y weithdrefn a drafodwyd.
  - (b) fel eithriad, ac mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael pan fo natur y gwaith a wneir, y nwyddau i'w prynu neu eu llogi neu'r gwasanaethau a ddarperir dan y contract neu'r risgiau sydd ynghlwm â hwy yn gyfryw fel nad ydynt yn caniatáu prisio cyffredinol ymlaen llaw.
  - (c) yn achos contract gwasanaeth, lle bo natur y gwasanaethau a ddarperir, yn enwedig yn achos gwasanaethau ariannol a gwasanaethau deallusol, megis gwasanaethau sy'n golygu dylunio gwaith, yn gyfryw fel nad oes modd dyfarnu manylebion yn ddigon manwl gywir i ganiatáu dyfarnu'r contract trwy ddefnyddio'r Weithdrefn Agored neu'r Weithdrefn Gyfyngedig; neu
  - (ch) yn achos gwaith, lle gwneir y gwaith dan y contract yn unig at ddibenion ymchwil, profi neu ddatblygu ond nid gyda'r nôd o sicrhau elw neu adennill costau ymchwil a datblygu.
- 17.16.8 Yn achos Caffaeliadau nas llywodraethir gan y Rheoliadau, gall Cyngor drafod Contract yn uniongyrchol gyda chontractwr unigol yn unig dan yr amgylchiadau a ganlyn a gyda'r eithriad, sef y darpariaethau brys yn (c) isod,. Yn achos caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000, gellir cymhwyso'r weithdrefn uchod yn unig wedi ymgynghori

ysgrifenedig ymlaen llaw gyda Rheolwr Caffael y Cyngor

- (a) yn absenoldeb tendrau, tendrau addas neu geisiadau mewn ymateb i wahoddiad i dendro gan y Cyngor gan ddefnyddio'r Weithdrefn Agored neu'r Weithdrefn Gyfyngedig ond yn unig os nad yw telerau gwreiddiol y contract arfaethedig a gynigiwyd yn y weithdrefn nas defnyddiwyd wedi eu newid yn sylweddol yn y Weithdrefn a Drafordir;
- (b) lle, am resymau technegol neu artistig, neu am resymau cysylltiedig ag amddiffyn hawliau echgynhwysol, gellir dyfarnu'r contract yn unig i Gontractwr penodol;
- (c) pan (ond yn unig os yw'n hollol angenrheidiol) am resymau brys eithriadol a achosir gan ddigwyddiadau nas rhagwelwyd gan y Cyngor ac na ellir eu priodoli i'r Cyngor, ac nad oes digon o amser i wahodd tendrau (os felly caiff y Rheolwr Caffael wybod am ddefnyddio'r weithdrefn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ym mhob caffael gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000.00.
- (ch) yn achos contract cyflenwi :
- (i) pan fo'r nwyddau a brynir neu a logir dan y contract i gael eu cynhyrchu yn unig at ddibenion ymchwil, arbrofi, astudio neu ddatblygu ond nid lle mae'r nwyddau i'w prynu neu eu llogi gyda'r nôd o sicrhau elw neu i adennill costau ymchwil a datblygu;
- (ii) pan fo angen y nwyddau a brynir neu a logir dan y contract gan y Cyngor yn rhannol yn lle neu yn ychwanegol at nwyddau neu osodiad sydd yno eisoes a phryd y byddai cael y nwyddau gan gyflenwr ar wahân i'r cyflenwr a gyflenwodd y nwyddau neu'r gosodiad presennol yn rhoi rheidrwydd ar y Cyngor i gael nwyddau â gwahanol briodweddau technegol fyddai'n arwain at y canlynol :-
- anghydnawsedd rhwng y nwyddau neu'r gosodiad presennol a'r nwyddau a brynir neu a llogir dan y contract; neu
  - anawsterau technegol anghymesur yng ngweithrediad a chynnal y nwyddau neu'r gosodiad presennol;
- (d) i brynu neu logi nwyddau a ddyfynnwyd ac a brynwyd ar y farchnad nwyddau;
- (dd) i fanteisio ar delerau arbennig o ffafriol ar gyfer prynu nwyddau mewn arwerthiant cau i lawr neu mewn arwerthiant a achoswyd oherwydd i gyflenwr fynd yn fethdalwr;
- (e) yn achos contract gwasanaeth, lle bo rheolau cystadleuaeth ddylunio yn mynnu bod y contract yn cael ei ddyfarnu i'r cystadleuydd llwyddiannus neu i un o'r cystadleuwyr

llwyddiannus, ar yr amod y gwahoddir yr holl gystadleuwyr llwyddiannus i drafod y contract.

## **17.17 ESTYNIADAU I CONTRACTAU**

17.17.1 Yn achos Caffaeliadau nas llywodraethir gan y Rheoliadau, gall y Cyngor ddefnyddio'r Weithdrefn a drafodir yn 17.16.8 uchod i drafod estyniad i'r Contract yn uniongyrchol gydag un contractwr yn unig dan yr amgylchiadau canlynol a than yr amodau isod:

### Amod 1

Lle bo gwerth y contract cychwynol neu amcangyfrif o werth cronrus y contract ac unrhyw estyniad yn uwch na £50,000.00, rhaid cymryd y penderfyniad mewn ymgynghoriad â Rheolwr Caffael y Cyngor.

### Amod 2

Lle bo gwerth y contract cychwynol neu amcangyfrif o werth cronrus y contract ac unrhyw estyniad yn uwch na £100,000 rhaid cymryd y penderfyniad mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro.

(i) yn achos contract gwaith neu gontract gwasanaethau -

Ile bo'r Cyngor eisiau i Gontractwr a ddaeth i gontract gwaith neu wasanaethau gyda'r Cyngor wneud gwaith ychwanegol neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol nas cynhwyswyd yn y prosiect a ystyriwyd yn wreiddiol neu yn y contract gwaith neu'r contract gwasanaethau gwreiddiol ond sydd, oherwydd amgylchiadau anorfod wedi dod yn angenrheidiol, a bod y cyfryw waith neu wasanaethau ;

- yn methu, am resymau technegol neu economaidd, cael eu gwneud neu eu darparu ar wahân i'r rhai dan y contract gwreiddiol heb anhwylystod mawr i'r Cyngor, neu
- yn gallu cael eu gwneud neu eu darparu ar wahân i'r rhai dan y contract gwreiddiol ond eu bod yn hollol angenrheidiol i gamau diweddar y contract hwnnw, ac

ar yr amod na fydd gwerth cronrus yr ystyriaeth a roddir dan y contractau am waith neu wasanaethau ychwanegol yn fwy na 50% o werth yr hyn sy'n daladwy dan y contract gwreiddiol.

(ii) pan fo'r Cyngor eisiau i Gontractwr sydd wedi dod i gontract gwaith neu gontract gwasanaethau gyda'r Cyngor wneud gwaith newydd neu ddarparu gwasanaethau newydd sy'n ailadrodd y gwaith a wnaed neu'r gwasanaethau a ddarparwyd dan y contract gwreiddiol ac sy'n unol â'r prosiect y daethpwyd i'r contract cyntaf er ei fwyn ar yr amodau a ganlyn -

- fod yr hysbysiad cyhoeddedig am y contract gwreiddiol yn dweud y gallai'r contract gwaith neu gontract gwasanaethau am waith neu wasanaethau newydd a fyddai'n ailadrodd y gwaith a wnaed neu'r gwasanaethau a ddarparwyd dan y contract gwreiddiol gael ei ddyfarnu trwy ddefnyddio'r weithdrefn drafod yn unol â Rheol 17.16.8.
- wrth bennu amcangyfrif gwerth y contract gwreiddiol, fod y cyngor at ddibenion paragraff 17.6 wedi ystyried gwerth yr hyn a ddisgwyliai fod yn daladwy am y gwaith neu'r gwasanaethau newydd; ac
- y cychwynnir y weithdrefn ar gyfer dyfarnu'r contract newydd ymhen tair blynedd o ddod i'r contract gwreiddiol.

## **17.18 GWEITHDREFN TENDRO (DEIALOG CYSTADLEUOL)**

- 17.18.1 Mewn contractau arbennig o gymhleth lle na all y Cyngor :
- ddiffinio'r dulliau technegol o fodloni ei anghenion, na chwaith
  - roi union fanylion lluniad ariannol neu gyfreithiol prosiect neu'r ddau, ac yn ystyried na fyddai'r drefn agored, gyfyngedig na'r un a drafodir yn caniatáu dyfarnu'r contract, gellir defnyddio'r weithdrefn ddeialog gystadleuol.
- 17.18.2 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad. Dim ond y Tendrwy'r a ddetholir gan y Cyngor a wahoddir i fod yn rhan o'r broses ddeialog gystadleuol. Detholir Tendrwy'r ar sail y meini prawf a ddatgenir yn Hysbysiad y Contract. Dylai unrhyw hysbysiad ddweud mai'r weithdrefn ddeialog gystadleuol a ddefnyddir.
- 17.18.3 Dylid gwahodd o leiaf dri Tendrwr i gymryd rhan yn y broses ddeialog gystadleuol yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad. Pan fo llai na thri Tendrwr wedi mynegi diddordeb neu yn alluog i gael eu gwahodd i dendro, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu a oes digon o ddiddordeb i ddangos gwir gystadluaeth cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r Caffael.
- 17.18.4 Dylai o leiaf ddau swyddog, ac o leiaf un ohonynt yn Bennaeth Gwasanaeth neu'n Uwch Reolwr fod yn bresennol bob amser yn ystod y broses ddeialog gystadleuol.
- 17.18.5 Dylai'r cyngor gadw cofnodion cywir o bob trafodaeth a bydd pawb a gymerodd ran yn llofnodi i'r perwyl hwn.
- 17.18.6 Bob amser yn ystod y broses ddeialog gystadleuol, dylai'r Cyngor ystyried a gweithredu egwyddorion tegwch, cyfrinachedd, gwrth-wahaniaethu, triniaeth gyfartal a thryloywder.
- 17.18.7 Ni ddefnyddir y broses ddeialog gystadleuol ar gyfer contractau gyda gwerth yr amcangyfrifir sydd dan drothwy'r UE.

## **17.19**     **DERBYN, CADW AC AGOR TENDRAU**

- 17.19.1     Rhaid i bob gwahoddiad i dendro osod allan yn glir ddyddiad ac amser olaf dychwelyd y tendr.
- 17.19.2     Rhaid dychwelyd yr holl dendrau gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd swyddogol ac ni ddylid marcio tu allan yr amlen mewn unrhyw fodd sydd yn dangos pwy yw'r Tendrwr.
- 17.19.3     Caiff tendrau gyda gwerth a amcangyfrifir dan £50,000 (os derbyniwyd hwy drwy'r post yn yr amlen swyddogol neu trwy ddefnyddio label swyddogol dychwelyd y tendr) eu dychwelyd at y Pennaeth Gwasanaeth. Agorir tendrau ym mhresenoldeb dau weithiwr a enwebwyd gan Bennaeth Gwasanaeth y maes gwasanaeth perthnasol fel sy'n briodol. Rhaid i'r naill weithiwr a'r llall fod yn annibynnol ar osod y Contract. Wedi eu hagor, cofnodir pob tendr yn y gofrestr tendrau, a chaiff y tendrau a'u gofrestr eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddogion dynodedig sydd yn bresennol ar y pryd. Dylid anfon copi o'r cyfryw gofnod at y Rheolwr Caffael.
- 17.19.4     Rhaid cyfeirio tendrau gyda gwerth a amcangyfrifir dros £50,000 at y Swyddog Monitro drwy'r post wedi eu hamgáu yn yr amlen swyddogol neu trwy ddefnyddio'r label swyddogol dychwelyd tendr a ddarperir gan y Cyngor. Y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am dderbyn, cadw ac agor y cyfryw dendrau. Caiff tendrau am yr un caffael eu hagor yn olynol yn yr un sesiwn ym mhresenoldeb dau weithiwr a ddynodwyd at y diben. Enwebir un gweithiwr gan y Swyddog Monitro a'r llall gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Rhaid i'r naill weithiwr a'r llall fod yn annibynnol ar osod y Contract. Wedi eu hagor, cofnodir pob tendr yn y gofrestr tendrau, a chaiff y tendrau a'u gofrestr eu llofnodi a'u dyddio gan y gweithwyr dynodedig sydd yn bresennol ar y pryd. Caiff y tendrau a agorwyd wedyn eu hanfon at y swyddog gwerthuso.
- 17.19.5     Ni dderbynnir tendrau sy'n cyrraedd ar ôl dyddiad ac amser derbyn tendrau.

## **17.20**     **TENDRO ELECTRONEG**

- 17.20.1     Gyda chytundeb y Rheolwr Caffael, gall y broses dendro gan gynnwys gwahodd a derbyn tendrau gael ei chynnal yn electronig a gelir addasu darpariaethau Rheolau 17.14 i 17.19 i hwyluso hyn, ar yr amod fod y system electronig a ddefnyddir wedi ei chymeradwyo gan y Rheolwr Archwilio a Risg.

## **17.21**     **GWERTHUSO TENDRAU**

- 17.21.1     Caiff tendrau eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf a'r pwysiadau gwerthuso sydd wedi eu datgan yn y gwahoddiad i dendro. Dyfernir pob contract, ac eithrio contractau lle pennwyd ymlaen llaw mai'r pris isaf fydd y maen prawf priodol, ar sail y cynnig sy'n cynrychioli gwerth gorau am arian i'r Cyngor (y tendr mwyaf economaidd fanteisiol) gan gadw mewn cof y meini prawf gwerthuso a'r pwysiadau a osodwyd. Rhaid pennu'r meini prawf gwerthuso a'r pwysiadau ymlaen llaw a'u rhestru yn

y dogfennau gwahoddiad i dendro. Hefyd, rhaid cadw at y meini prawf a'r pwysladau yn gadarn (heb eu newid) trwy gydol y drefn o ddyfarnu'r contract. Medrwyh gael canllawiau a chymorth ar y meini prawf gwerthuso priodol gan yr Uned Gaffael Gorfforaethol a'r Uned Gyfreithiol

- 17.21.2 Os, wedi agor ac archwilio'r tendrau, y gwelir camgymeriad yng ngweithio allan y tendr, caiff y Tendrwr fanylion y gwall a chyfle i gadarnhau'r cyflwyniad tendr wedi ei gywiro neu dynnu'r tendr yn ôl.
- 17.21.3 Ar bob adeg yn ystod unrhyw broses egluro o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried a chydymffurfio ag egwyddorion Cytundeb yr UE o wrth-wahaniaethu, triniaeth gyfartal, cyd-gydnabod a chymesuredd, egwyddorion sy'n gymwys i holl gaffaeliadau'r Cyngor.

## **17.22 TÎM GWERTHUSO**

Ar gyfer pob Contract gyda gwerth a amcangyfrifir uwchlaw £50,000, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn llunio tîm gwerthuso ('Tîm Gwerthuso') gyda chyfrifoldeb am werthuso tendrau. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gwerthuso.

## **17.23 RISG**

- 17.23.1 Ar gyfer Caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifwyd uwchlaw £50,000, bydd y Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiad risg ar y cychwyn ac wedyn yn cynnal a chyfoesi hyn trwy gydol y Broses Gaffael. Rhaid hysbysu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau am unrhyw risg a nodir.
- 17.23.2 Ar gyfer Caffaeliadau gyda gwerth a amcangyfrifwyd uwchlaw £50,000, bydd y Tîm Gwerthuso yn ystyried a fydd angen bond perfformiad a/neu warant rhiant-gwmni (os yn gymwys) gan y dewis Gyflenwr a lle cyfyd y cyfryw ofyniad, sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys fel un o ofynion y broses gaffael.
- 17.23.3 Ar gyfer pob Caffaeliad, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ystyried math priodol (atebolrwydd cyflogwr, atebolrwydd cyhoeddus, rhyddarbed proffesiynol, etc.) a lefel yr yswiriant fydd ei angen ar gyfer pob contract a gofalu ei fod wedi ei gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

## **17.24 RHESTR CYMERADWY**

- 17.24.1 Gellir defnyddio Rhestrau Cymeradwy yn unig lle mae contractau cylchol o fath tebyg yn debygol ond lle bo angen prisio contractau o'r fath yn unigol ac nad oes modd eu cronni yn hawdd a'u prisio mewn un ymarferiad prisio. Ni ellir defnyddio Rhestrau Cymeradwy ar gyfer contractau lle'r amcangyfrifir y gwerth yn uwch na £50,000.
- 17.24.2 Ni cheir rhoi un cyflenwr ar Restr Gymeradwy hyd nes y cynhaliwyd ymchwiliad digonol, gan gadw mewn côf Reol 17.12 i'w gallu ariannol a thechnegol i berfformio'r contract, onid ymchwilir i'r cyfryw faterion bob tro y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno.



- 17.24.3 Rhaid llunio Rhestrau Cymeradwy wedi hysbyseb yn gwahodd ceisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr. Rhaid gosod yr hysbyseb er mwyn cael y cyhoeddusrwydd mwyaf ymysg cyflenwyr perthnasol. Gellir rhoi pobl ar restr rhwng yr hysbyseb cychwynnol ac ail-hysbysebu ar yr amod y cydymffurfir â gofynion Rheol 17.24.2.
- 17.24.4 Cedwir rhestrau cymeradwy o gyflenwyr Gwasanaethau mewn dull agored, teg a thryloyw a rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Gellir derbyn unrhyw gais gan weithredwr economaidd i'w gynnwys ar y rhestr ar yr amod eu bod yn cwrdd â gofynion Rheol 17.24.2.
- 17.24.5 Rhaid adolygu'r rhestr yn flynyddol a'i ail-hysbysebu o leiaf bob tair blynedd. Adeg ail-hysbysebu, rhaid anfon copi o'r hysbyseb at bawb ar y rhestr, yn eu gwahodd i ailymgeisio. Golyga adolygu
- (i) ail-asesu gallu a pherfformiad ariannol a thechnegol y sawl ar y rhestr, onid ymchwilir i faterion o'r fath bob tro y gwahoddir bidiau oddi ar y rhestr honno;
  - (ii) dileu, gyda rhybudd, y sawl nad ydynt bellach yn gymwys, gan gadw cofnod ysgrifenedig yn cyfiawnhau'r dileu.

## **17.25 DYFARNU CONTRACTAU**

- 17.25.1 Swyddog Awdurdodedig yn unig all ddyfarnu contract. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, cyn ceisio penderfyniad o'r fath, sicrhau fod digon o arian ar gael i dalu am bob contract ac os ceir unrhyw arian gan drydydd parti, ac y cadwyd at yr amodau sydd ynghlwm wrth y cyfryw gyllid.
- 17.25.2 Lle bo gan Contract a ddyfarnwyd amcangyfrif o werth o £250,000 neu fwy rhaid i'r Aelod Cabinet perthnasol o fewn 5 diwrnod gwaith i ddyddiad dyfarnu'r contract gael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ddyfarnu'r contract gyda'r hysbysiad i nodi testun, partïon a gwerth y contract.
- 17.25.3 Bydd y Cyngor yn dyfarnu Contract yn unig lle mae'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian. Dyfernir Contract yn unig drwy ddefnyddio'r meini prawf a'r pwysladau gwerthuso tendr a bennwyd ymlaen llawr. Lle gwerthusir tendr am bris yn unig, rhaid dyfarnu'r Contract, yn amodol ar Rheol 17.25.4 isod, i'r Tendrwr sy'n cyflwyno'r prif isaf.
- 17.25.4 Os, ym marn y Swyddog Awdurdodedig, yr ystyrir Tender yn annormal o isel, gellir ei ddiystyru, ond yn unig os:
- (a) gofynnodd y Swyddog Awdurdodedig yn ysgrifenedig am esboniad o'r Tender neu'r rhannau hynny ohono sydd yn ei farn ef/hi yn cyfrannu at i'r cynnig fod yn annormal o isel;
  - (b) yw wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd fel esboniad mewn ymateb i gais ysgrifenedig; a
  - (c) bod y Tendr wedi ei wirio wedi hynny.

- 17.25.5 Ac eithrio dan amodau eithriadol, ni ddylid gofyn i unrhyw Contractwr ddarparu unrhyw Wasanaethau, cyflenwi unrhyw Nwyddau na gwneud unrhyw Waith (gan gynnwys Gwaith cychwynnol) hyd nes i'r Contract gael ei gwblhau neu yr ymdrinnir â'r Gwasanaethau, Nwyddau neu Waith dan sylw gan llythyr o fwriad. Rhaid i unrhyw benderfyniad i'r gwrthwyneb gael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaeth am y maes gwasanaeth dan sylw a dylai'r cyfryw benderfyniad gynnwys asesiad risg llawn ynglŷn ag oblygiadau posibl i'r Cyngor o ganiatáu i'r Contractwr gychwyn cyn rhoi telerau ac amodau'r contract ar eu ffurf derfynol neu gyhoeddi llythyr o fwriad.
- 17.25.6 Defnyddir llythyrau o fwriad yn unig dan amgylchiadau eithriadol fel a ganlyn :-
- (a) Lle mae gofyn i Gyflenwr ddarparu gwasanaethau, cyflenwadau neu waith cyn i'r Cyngor dderbyn yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig; neu
  - (b) Lle nad yw ffurf ar dendr y cyngor yn cynnwys datganiad, hyd nes y gweithredir contract ffurfiol, bydd y ffaith fod y Cyngor wedi derbyn tendr yn ysgrifenedig yn rhwymo'r partion mewn perthynas gcontractaidd.

**17.26 HYSBYSU AM Y CANLYNIADAU A RHOI YMATEB CYFNOD LLONYDD ALCATEL**

- 17.26.1 Unwaith i'r penderfyniad am ddyfarnu'r contract gael ei wneud, yna ac eithrio am y Tendrwr llwyddiannus, bydd pawb a fynegodd ddiddordeb ac a dendrodd yn derbyn llythyr gresynu safonol yn cynnwys y manylion canlynol:-
- (i) Meini prawf a phwysladau'r dyfarnu;
  - (ii) Y sgôr a gafodd y Tendrwr yn erbyn y meini prawf a'r pwysladau hynny (lle bo hynny'n berthnasol).
  - (iii) Sgôr gyffredinol y Tendrwr a enillodd; ac
  - (iv) Enw'r Tendrwr buddugol.
- 17.26.2 Os datgelir unrhyw wybodaeth ychwanegol i Dendrwr, rhaid cytuno ymlaen llaw ar hyn gyda'r Rheolwr Caffael, gan ystyried gofynion unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â datgelu gwybodaeth.
- 17.26.3 Mae'r rhestr o bwyntiau lle gall cynnal sesiwn adborth fod yn briodol yn cynnwys :-
- (i) dethol: lle na ddewisir yr ymgeisydd (rhestr fer) i gymryd rhan yn y broses dendro;
  - (ii) dyfarnu: lle na ddyfarnwyd y Contract i'r Tendrwr wedi gwerthuso'r cynigion/tendr. Ni ddylid fyth gynnal y cyfryw sesiwn adborth cyn penderfynu ar y contract a bod yr holl Dendrwr aflwyddiannus

wedi eu hysbysu'n ffurfiol am hyn. Dylid gwneud yn glir nad oes modd defnyddio'r sesiwn adborth i newid y dewis o Gontractwr nac i ailagor y broses dethol;

- (iii) os gofynnir i unrhyw ddarpar-gyflenwr dynnu'n ôl neu os bydd yn tynnu'n ôl yn ystod y Caffael. Cynhelir sesiwn adborth yn unig ar gais y Contractwr.

17.26.4 Os yw dyfarnu Contract yn amodol ar y Rheoliadau rhaid cael cyfnod llonydd o isafswm o 10 diwrnod calendr rhwng cyfleu'r penderfyniad am ddyfarnu i'r holl Dendrwy'r a chwblhau'r Contract.

#### **17.27 CWBLHAU CONTRACTAU**

17.27.1 Ac eithrio am unrhyw Gontract a luniwyd trwy ddefnyddio allbwn archeb bwrcasu ar system bwrcasu electronig y Cyngor, rhaid i unrhyw Gontract gyda gwerth a amcangyfrifir yn uwch na £50,000 fod :-

- (i) yn ysgrifenedig,
- (ii) dan sêl Cyngor.

17.27.2 Rhaid i gontractau o £50,000 ac is mewn gwerth fod wedi eu gwneud trwy ddefnyddio :

- (i) archeb bwrcasu a gynhyrchwyd gan system bwrcasu electronig y Cyngor, neu
- (ii) fod ar ffurflen archebu swyddogol a gynhyrchir gan y Cyngor, neu
- (iii) contract ysgrifenedig.

#### **17.28 RHEOLI CONTRACTAU**

17.28.1 Unwaith i'r Contract gael ei ddyfarnu, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig nodi ac enwebu unigolyn a fydd yn rheoli agweddau beunyddiol y Contract tra pery, ac os bydd angen, cynllunio beth fydd yn digwydd unwaith y daw'r Contract i ben (cynllunio ar gyfer unrhyw ymarferiad caffael newydd fydd ei angen).

17.28.2 Bydd rheoli beunyddiol y Contract yn cynnwys monitro'r canlynol:

- (i) perfformiad;
- (ii) cydymffurfio â manylebion a thelerau'r contract
- (iii) cost
- (iv) unrhyw ofynion gwerth am arian/gwerth gorau
- (v) boddhad y defnyddwyr, a
- (vi) rheoli risg.

17.28.3 Lle bo cyfanswm gwerth y Contract dros £250,000, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig wneud adroddiad ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Contract yn cyfarfod yr amcanion a osodwyd. Dylid gwneud hyn fel rheol pan gwblheir y Contract ond ar gyfer contractau tymor, dylai adroddiad o'r fath gael ei baratoi bob blwyddyn.

#### **17.29 ILDIO RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU**

17.29.1 Gall yr Arweinydd Portffolio perthnasol gytuno i ildio os bydd ef neu hi yn fodlon, wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y swyddog priodol, fod cyfiawnhad dros yr ildio oherwydd :

- (i) yr ymchwiliwyd i natur y farchnad ar gyfer y gwaith a wneir neu'r nwyddau neu wasanaethau i'w darparu ac y dangoswyd ei bod yn gyfryw fel ag i wyro oddi wrth ofynion y Rheolau Sefydlog ar Contractau, neu
- (ii) bod amgylchiadau'r contract arfaethedig yn dod dan eithriadau deddfwriaethol (boed dan gyfraith yr UE neu Gyfraith Lloegr); neu
- (iii) fod hyn er budd cyffredinol y Cyngor, neu
- (iv) fod amgylchiadau eraill sydd yn wirioneddol eithriadol.

17.29.2 Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad sydd yn cymeradwyo ildio a'r rheswm drosto, a gwneud cofnod yn y gofrestr briodol.

17.29.3 Nid oes grym i ildio parthed gofynion y Rheoliadau.